

ATODLEN 1

(a gyflwynir gan adrannau 24(3), 29(3)(b)
a 30(6)(b))

CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

RHAN 1

CYNLLUNIO CWRICWLWM

Cymhwys

- 1 Mae'r Rhan hon yn gymwys at ddibenion adran 24(3) (darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg).

Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol

- 2 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i—
(a) ysgol gymunedol;
(b) ysgol sefydledig neu wirfoddol heb gymeriad crefyddol.
- (2) Rhaid bod y ddarpariaeth wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig.

Ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol

- 3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ysgol sefydledig, neu ysgol wirfoddol a reolir, sydd â chymeriad crefyddol.
- (2) Rhaid bod y ddarpariaeth wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig.
- (3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys yn yr achosion hynny pan na fo'r ddarpariaeth honno yn cyd-fynd—
(a) ag unrhyw ddarpariaethau yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu
(b) os nad oes unrhyw ddarpariaethau o'r fath, â daliadau'r grefydd neu'r enwad crefyddol a bennir mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 68A o [Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998](#) (p. 31).
- (4) Yn yr achosion hynny, rhaid i'r cwricwlwm hefyd wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd yn cyd-fynd â'r darpariaethau hynny neu (yn ôl y digwydd) y daliadau hynny.

Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol

- 4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol.
- (2) Rhaid i'r ddarpariaeth gyd-fynd—
(a) ag unrhyw ddarpariaethau yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu

- (b) os nad oes unrhyw ddarpariaethau o'r fath, â daliadau'r grefydd neu'r enwad crefyddol a bennir mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 68A o [Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998](#) (p. 31).
- (3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys yn yr achosion hynny pan na fo'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan is-baragraff (2) yn ddarpariaeth sy'n cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig.
- (4) Yn yr achosion hynny, rhaid i'r cwricwlwm hefyd wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae rhaid ei bod wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig.

RHAN 2

GWEITHREDU CWRICWLWM

Cymhwys

- 5 Mae'r Rhan hon yn gymwys i'r addysgu a dysgu y mae rhaid ei sicrhau o dan adrannau 29(3)(b) a 30(6)(b) mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol

- 6 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i—
(a) ysgol gymunedol;
(b) ysgol sefydledig neu wirfoddol heb gymeriad crefyddol.
- (2) Rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 2(2) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig).

Ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol

- 7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ysgol sefydledig, neu ysgol wirfoddol a reolir, sydd â chymeriad crefyddol.
- (2) Rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(2) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig), ac eithrio yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo.
- (3) Yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo, rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(3) (darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth etc).
- (4) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i ddisgybl os yw rhiant i'r disgybl yn gofyn bod yr addysgu a dysgu yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(3) (darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth etc).

Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol

- 8 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol.
- (2) Rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 4(2) (darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth etc), ac eithrio yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo.
- (3) Yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo, rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm yn unol â pharagraff 4(3) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig).
- (4) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i ddisgybl os yw rhiant i'r disgybl yn gofyn bod yr addysgu a dysgu yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm yn unol â pharagraff 4(3) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig).

RHAN 3

DEHONGLI

- 9 (1) Am ystyr "agreed syllabus" ("*maes llafur cytunedig*"), gweler adran 375A(7) o [Ddeddf Addysg 1996 \(p. 56\)](#).
- (2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae i ysgol gymeriad crefyddol os y'i dynodir gan orchymyn sy'n cael ei wneud (neu sy'n cael ei drin fel pe bai'n cael ei wneud) o dan adran 68A o [Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 \(p. 31\)](#) (ac mae cyfeiriadau at ysgol heb gymeriad crefyddol i'w dehongli yn unol â hynny).

ATODLEN 2

(a gyflwynir gan adran 73)

MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL A DIDDYMIADAU

Deddf Addysg 1996 (p. 56)

- 1 Mae Deddf Addysg 1996 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 2 Yn adran 4 (ysgolion: cyffredinol), yn is-adran (2), ar ôl "section 19(1)", yn y ddau le y mae'n digwydd, mewnosoder "or 19A(1)".
- 3 (1) Mae adran 19 (darpariaeth eithriadol o addysg mewn unedau cyfeirio disgyblion neu mewn mannau eraill) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn y pennawd, ar y diwedd mewnosoder "": England".
- (3) Yn is-adran (1), ar ôl "Each local authority" mewnosoder "in England".
- (4) Yn is-adran (1A), hepgorer "In relation to England,".
- (5) Hpgorer is-adrannau (2) a (2A).
- (6) Yn is-adran (2B), ar ôl "a local authority" mewnosoder "in England".

- (7) Yn is-adran (3), ar ôl “A local authority” mewnosoder “in England”.
- (8) Yn is-adran (3A), hepgorer “In relation to England,”.
- (9) Yn is-adran (4), ar ôl “A local authority” mewnosoder “in England”.
- (10) Yn is-adran (7), ar ôl “pupil referral units” mewnosoder “maintained by a local authority in England”.

4 Ar ôl adran 19 mewnosoder—

**“19A Exceptional provision of education in pupil referral units or elsewhere:
Wales**

- (1) Each local authority in Wales must make arrangements for the provision of suitable education at school or otherwise than at school for children within the authority’s area who—
 - (a) are of compulsory school age, and
 - (b) by reason of illness, exclusion from school or otherwise, may not receive suitable education for a period unless such arrangements are made for them.
- (2) A school established (whether before or after the commencement of this Act) and maintained by a local authority in Wales which—
 - (a) is specially organised to provide education for children falling within subsection (1), and
 - (b) is not a special school,
 is to be known as a “pupil referral unit”.
- (3) A local authority in Wales may secure the provision of boarding accommodation at any pupil referral unit.
- (4) A local authority in Wales may make arrangements for the provision of suitable education otherwise than at a school for young persons within the authority’s area who, by reason of illness, exclusion from school or otherwise, may not receive a suitable education for a period unless such arrangements are made for them.
- (5) In this section, “suitable education”, in relation to a child or young person means efficient education suitable to the young person’s age, ability and aptitude and to any additional learning needs the child or young person may have.
- (6) The following persons are to be treated as pupils for the purposes of this Act—
 - (a) any child for whom education is provided otherwise than at school under this section, and
 - (b) any young person for whom full-time education is provided otherwise than at school under this section.
- (7) Schedule 1 has effect in relation to pupil referral units maintained by local authorities in Wales.”

5 Yn Rhan 5, ym mhennawd Pennod 3, ar ôl “Education” mewnosoder “etc”.

- 6 (1) Mae adran 375 (meysydd llafur cytunedig addysg grefyddol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn y pennawd, ar ôl “religious education” mewnosoder “: England”.
- (3) Yn is-adran (2)—
- (a) yn y geiriau o flaen paragraff (a), ar ôl “agreed syllabus” mewnosoder “, in relation to England,”;
- (b) ym mharagraff (b), ar ôl “local authority” mewnosoder “in England”.
- (4) Yn is-adran (3), ar ôl “agreed syllabus” mewnosoder “for use in England”.
- (5) Yn is-adran (4), ar ôl “local authority” mewnosoder “in England”.
- 7 Ar ôl adran 375 mewnosoder—

“375A Agreed syllabus of Religion, Values and Ethics: Wales

- (1) Each local authority in Wales must adopt a syllabus of Religion, Values and Ethics for use in the schools maintained by them.
- (2) The syllabus adopted by an authority may make different provision in respect of—
- (a) different descriptions of school maintained by the local authority;
- (b) different descriptions of pupils.
- (3) The syllabus—
- (a) must reflect the fact that the religious traditions in Wales are in the main Christian while taking account of the teaching and practices of the other principal religions represented in Wales;
- (b) must also reflect the fact that a range of non-religious philosophical convictions are held in Wales.
- (4) In subsection (3), the reference to philosophical convictions is to philosophical convictions within the meaning of Article 2 of the First Protocol to the European Convention on Human Rights.
- (5) Schedule 31 makes further provision in relation to a syllabus of Religion, Values and Ethics.
- (6) In this section—
- “the European Convention on Human Rights” means the Convention for the Protection of Human Rights and Fundamental Freedoms, agreed by the Council of Europe at Rome on 4th November 1950, as it has effect for the time being in relation to the United Kingdom;
- “the First Protocol”, in relation to that Convention, means the protocol to the Convention agreed at Paris on 20th March 1952.
- (7) References in this Act to an agreed syllabus, in relation to Wales, are to a syllabus adopted under this section, or deemed to be adopted under this section by virtue of paragraph 14(2) of Schedule 31; and accordingly in relation to a syllabus deemed to have been so adopted, any reference to the date on which an agreed syllabus was adopted is a reference to the date of

deemed adoption specified by the Welsh Ministers in a direction under that paragraph.

(8) In exercising functions under this section, a local authority must have regard to any guidance given by the Welsh Ministers.”

8 Yn y pennawd italg o flaen adran 390 (cyfansoddiad cynghorau ymgynghorol sefydlog ar addysg grefyddol), hepgorer “*on religious education*”.

9 (1) Mae adran 390 (cyfansoddiad cynghorau ymgynghorol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), ar ôl “local authority“ mewnosoder “in England”.

(3) Ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

“(1A) A local authority in Wales shall constitute a standing advisory council on Religion, Values and Ethics for the purposes mentioned in section 391(1A).”

(4) Yn is-adran (2), yn lle “The council” rhodder “A council constituted under subsection (1) or (1A)”.

(5) Yn is-adran (3), yn lle “The council” rhodder “A council constituted under subsection (1) or (1A)”.

(6) Yn is-adran (4)—

(a) ym mharagraff (a), o flaen “a group” mewnosoder “in the case of an area in England,”;

(b) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

“(aa) in the case of an area in Wales, a group of persons to represent—

(i) Christian denominations and other religions and denominations of such religions, and

(ii) non-religious philosophical convictions;”.

(7) Yn is-adran (6), ar ôl “appointed” mewnosoder “by a local authority in England”.

(8) Ar ôl is-adran (6) mewnosoder—

“(6A) A local authority in Wales, in appointing persons to a representative group under subsection (4)(aa), must take all reasonable steps to secure the outcome referred to in subsection (6B).

(6B) The outcome is that the number of members appointed to the group to represent a religion, denomination or non-religious philosophical conviction shall, so far as consistent with the efficient discharge of the group's functions, reflect broadly the proportionate strength of that religion, denomination or non-religious philosophical conviction in the area.”

(9) Ar ôl is-adran (7) mewnosoder—

“(8) In exercising functions under this section, a local authority in Wales must have regard to any guidance given by the Welsh Ministers.

(9) In this section, “non-religious philosophical conviction” has the same meaning as in section 375A(3).”

10 (1) Mae adran 391 (swyddogaethau cynghorau ymgynghorol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

“(1A) The purposes referred to in section 390(1A) are—

(a) to advise the local authority on such matters connected with—

(i) religious worship in community schools or in foundation schools which (within the meaning of Part 2 of the School Standards and Framework Act 1998) do not have a religious character, and

(ii) the provision of teaching and learning, under the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021, either in respect of the mandatory element of Religion, Values and Ethics (within the meaning of that Act), or under section 61 of that Act (post-compulsory education in maintained schools: Religion, Values and Ethics),

as the authority may refer to the council or as the council may see fit, and

(b) to carry out the functions conferred on them by section 394.”

(3) Yn is-adran (2), yn lle “subsection (1)(a)” rhodder “subsections (1)(a) and (1A)(a)”.

(4) Ar ôl is-adran (10) mewnosoder—

“(11) In exercising its functions under this Act, a council constituted by a local authority in Wales must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers.”

11 (1) Mae adran 392 (cyngorau ymgynghorol: darpariaethau atodol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), yn lle “the standing advisory council on religious education” rhodder “a standing advisory council”.

(3) Yn is-adran (2), ar ôl pob cyfeiriad at “denomination” mewnosoder “, philosophical conviction”.

(4) Yn is-adran (3), ar ôl “denomination” mewnosoder “, philosophical conviction”.

(5) Yn is-adran (8), ym mharagraff (b), ar ôl pob cyfeiriad at “denomination” mewnosoder “, philosophical conviction”.

12 Yn adran 394 (penderfynu ar achosion pan na fo gofyniad am addoli Cristnogol ar y cyd i fod yn gymwys), yn is-adran (1), ym mharagraff (b)—

(a) ar ôl “section” mewnosoder “68A or”;

(b) ar ôl “by” mewnosoder “the Welsh Ministers or”.

13 Yn adran 396 (pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo cyngor ymgynghorol i ddirymu penderfyniad neu gyflawni dyletswydd), yn is-adran (1), ar ôl “local authority” mewnosoder “in England”.

14 Ar ôl adran 396 mewnosoder—

“396A Power of Welsh Ministers to direct advisory council to revoke determination etc

- (1) Where the Welsh Ministers are satisfied, either on complaint by any person or otherwise, that any standing advisory council constituted by a local authority in Wales under section 390—
- (a) have acted, or are proposing to act, unreasonably in determining for the purposes of section 394 or 395 whether it is appropriate for the requirement imposed by paragraph 3(2) of Schedule 20 to the School Standards and Framework Act 1998 to apply in the case of any school or any class or description of pupils at a school, or
 - (b) have failed to discharge any duty imposed under section 394 or 395, the Welsh Ministers may give the council such directions as to the revocation of the determination, or the withdrawal of the proposed determination or (as the case may be) the discharge of the duty as appear to them to be expedient; and the council shall comply with the directions.
- (2) Directions under subsection (1) may provide for the making by the council of a new determination to take effect in place of the determination or proposed determination to be revoked or withdrawn by them.”
- 15 (1) Mae adran 397 (addysg grefyddol: mynediad at gyfarfodydd a dogfennau) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn y pennawd, hepgorer “Religious education:”
- (3) Yn is-adran (1)—
- (a) ym mharagraff (a), yn lle “(1)” rhodder “(A1)”;
 - (b) ym mharagraff (b), hepgorer “on religious education”.
- (4) Yn is-adran (2), ar ôl “Regulations” mewnosoder “made by the appropriate authority”.
- (5) Ar ôl is-adran (3) mewnosoder—
- “(4) The “appropriate authority” is—
- (a) in relation to a conference convened by a local authority in Wales, or a standing advisory council convened by a local authority in Wales, the Welsh Ministers;
 - (b) in relation to a conference convened by a local authority in England, or a standing advisory council convened by a local authority in England, the Secretary of State.”
- 16 (1) Mae adran 399 (penderfynu a yw addysg grefyddol yn unol â’r weithred ymddiriedolaeth) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn y pennawd, ar ôl “religious education” mewnosoder “or education in respect of Religion, Values and Ethics”.
- (3) Daw’r ddarpariaeth bresennol yn is-adran (1).
- (4) Yn is-adran (1), ar ôl “voluntary school” mewnosoder “in England”.
- (5) Ar ôl is-adran (1), mewnosoder—

- “(2) Where any trust deed relating to a foundation or voluntary school in Wales makes any provision whereby a bishop or any other ecclesiastical or denominational authority has power to decide whether provision for the mandatory element of Religion, Values and Ethics does or does not accord with the provisions of the trust deed, that question shall be determined in accordance with the provisions of the trust deed.
- (3) In subsection (2), the reference to the mandatory element of Religion, Values and Ethics has the same meaning as in the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021.”
- 17 Yn y pennawd italig o flaen adran 403, ar ôl “*Sex education*” mewnosoder “*in England*”.
- 18 (1) Mae adran 403 (addysg rhyw: y modd y mae rhaid ei darparu) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn y pennawd, ar ôl “*Sex education*” mewnosoder “*in England*”.
- (3) Yn is-adran (1)—
- (a) ar ôl “*head teacher*” mewnosoder “*of a maintained school in England*”;
- (b) yn lle “*a maintained*” rhodder “*the*”.
- (4) Yn is-adran (1A), yn y geiriau o flaen paragraff (a), ar ôl “*maintained schools*” mewnosoder “*in England*”.
- (5) Yn is-adran (1C), ar ôl “*schools*” mewnosoder “*in England*”.
- 19 Yn adran 404 (addysg rhyw: datganiadau polisi)—
- (a) yn y pennawd, ar ôl “*Sex education*” mewnosoder “*in England*”;
- (b) yn is-adran (1), ar ôl “*maintained school*” mewnosoder “*in England*”.
- 20 Yn adran 405 (esemptiad rhag addysg rhyw)—
- (a) yn y pennawd, ar ôl “*sex education*” mewnosoder “*in England*”;
- (b) yn is-adran (1), ar ôl “*maintained school*” mewnosoder “*in England*”.
- 21 Yn adran 444ZA (cymhwyso adran 444 i ddarpariaeth addysgol amgen), yn is-adran (1), ar ôl “*section 19*” mewnosoder “*or 19A*”.
- 22 Yn adran 569 (rheoliadau), yn is-adran (2B)—
- (a) o flaen “*444A*” mewnosoder “*397,*”;
- (b) o flaen “*made by the Welsh Ministers*” mewnosoder “*, or under paragraph 6B or 6C of Schedule 1,*”.
- 23 Yn adran 579 (dehongli cyffredinol), yn is-adran (1), yn y diffiniad o “*regulations*”—
- (a) hepgorer “*(except in Chapter 5A)*”;
- (b) ar y diwedd mewnosoder “*, except where otherwise stated or where the function of making the regulations has been transferred to the Welsh Ministers in relation to Wales*”.
- 24 Yn adran 580 (mynegai), yn lle’r cofnod ar gyfer “*agreed syllabus*” rhodder—

“*agreed syllabus*

(in relation to England)

Section 375(2) and (4)

(in relation to Wales)

Section 375A(7)”.

- 25 (1) Mae Atodlen 1 (unedau cyfeirio disgyblion) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ar ôl paragraffau 1 a 2 (addasiadau cyffredinol o ddeddfiadau) mewnosoder—
- “2A Paragraphs 1 and 2 do not apply to references in an enactment in, or made under, the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021.”
- (3) Ym mharagraff 6 (cwricwlwm)—
- (a) yn is-baragraff (1)—
- (i) ar ôl “every pupil referral unit” mewnosoder “maintained by a local authority in England”;
- (ii) hepgorer “or 99(1)”;
- (b) yn is-baragraff (2), ar ôl “every pupil referral unit” mewnosoder “maintained by a local authority in England”;
- (c) hepgorer is-baragraffau (3) a (4).
- (4) Ar ôl paragraff 6 mewnosoder—
- “6A Paragraphs 6B, 6C and 6D apply in relation to every pupil referral unit maintained by a local authority in Wales.
- 6B (1) The local authority, the management committee (where applicable) and the teacher in charge of a pupil referral unit must exercise their functions—
- (a) in relation to registered pupils of compulsory school age at the unit, in accordance with sections 50 to 52 of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 (curriculum requirements);
- (b) in relation to registered pupils above compulsory school age at the unit, with a view to securing that the curriculum for those pupils meets the requirements in sub-paragraph (2).
- (2) The requirements are that the curriculum is a balanced and broadly based curriculum which—
- (a) promotes the spiritual, moral, cultural, mental and physical development of the pupils, and
- (b) prepares them for the opportunities, responsibilities and experiences of later life.
- (3) The Welsh Ministers may, by regulations, make provision in respect of the curriculum for registered pupils above compulsory school age at pupil referral units, including provision as to making, and keeping up to date, a written statement of the policy in relation to the curriculum for those pupils.
- 6C The Welsh Ministers may, by regulations—
- (a) require the local authority, the management committee (where applicable) or the teacher in charge of a pupil referral unit to exercise any functions relating to the curriculum that are specified in regulations, or
- (b) require those persons, or any of them, to collaborate with each other in exercising any functions relating to the curriculum that are specified in regulations.

- 6D (1) Each local authority in Wales must make arrangements to deal with complaints that the authority, or the teacher in charge of a pupil referral unit maintained by the authority—
- (a) have acted or are proposing to act unreasonably in relation to the exercise of a power conferred, or the performance of a duty imposed, on them—
 - (i) by section 50, 51 or 52 of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021, or
 - (ii) by paragraph 6B, or by regulations made under paragraph 6B or 6C, or
 - (b) have failed to discharge a duty imposed on them by or under any of those provisions.
- (2) The Welsh Ministers must not exercise their powers under Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in local authorities) in relation to—
- (a) a complaint for which arrangements are required to be made under sub-paragraph (1), or
 - (b) a complaint that a local authority in Wales has failed to exercise its powers to secure compliance by the teacher in charge of a pupil referral unit with a duty referred to in subparagraph (1),
- unless a complaint about the same matter has been made, and has been dealt with, in accordance with arrangements made under that sub-paragraph.”

(5) Ym mharagraff 8—

- (a) daw'r ddarpariaeth bresennol yn is-baragraff (1);
- (b) yn yr is-baragraff hwnnw—
 - (i) ar ôl “pupil referral units” mewnosoder “in England”;
 - (ii) ar ôl “community schools” mewnosoder “in England”;
- (c) ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—

“(2) Sections 406 and 407 (political indoctrination, and treatment of political issues) apply in relation to pupil referral units in Wales as they apply in relation to community schools in Wales.”

- 26 (1) Mae Atodlen 31 (meysydd llafur cytunedig addysg grefyddol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ym mhennawd yr Atodlen, ar ôl “Religious Education” mewnosoder “and Religion, Values and Ethics”.
- (3) O flaen pennawd paragraff 1 mewnosoder—

“Duty to convene conference to prepare first syllabus of Religion, Values and Ethics: Wales

- A1 A local authority in Wales must convene a conference for the purpose of preparing the first syllabus of Religion, Values and Ethics to be adopted by the local authority under section 375A.”

(4) Ym mharagraff 4, yn is-baragraff (2)—

- (a) ym mharagraff (a), o flaen “a committee” mewnosoder “in the case of an area in England.”;
 - (b) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—
 - “(aa) in the case of an area in Wales, a committee of persons representing—
 - (i) Christian denominations and other religions and denominations of such religions, and
 - (ii) non-religious philosophical convictions.”.
- (5) Ym mharagraff 4, yn is-baragraff (4), ar ôl “appointed” mewnosoder “by a local authority in England”.
- (6) Ym mharagraff 4, ar ôl is-baragraff (4) mewnosoder—
- “(5) A local authority in Wales, in appointing persons to a representative group under sub-paragraph (2)(aa), must take all reasonable steps to secure the outcome referred to in sub-paragraph (6).
 - (6) The outcome is that the number of members appointed to the committee to represent a religion, denomination or non-religious philosophical conviction shall, so far as consistent with the efficient discharge of the committee's functions, reflect broadly the proportionate strength of that religion, denomination or non-religious philosophical conviction in the area.
 - (7) In this paragraph, “non-religious philosophical conviction” has the same meaning as in section 375A(3).”
- (7) Ym mharagraff 7—
- (a) yn is-baragraff (1), ar ôl pob cyfeiriad at “denomination” mewnosoder “, philosophical conviction”;
 - (b) yn is-baragraff (2), ar ôl “denomination” mewnosoder “, philosophical conviction”.
- (8) Ym mharagraff 8, ym mharagraff (b), ar ôl “denomination” mewnosoder “, philosophical conviction”.
- (9) Ar ôl paragraff 9 mewnosoder—

“Adoption of first syllabus of Religion, Values and Ethics: Wales

- 9A (1) This paragraph applies where a local authority in Wales convene a conference for the purpose of preparing the first syllabus of Religion, Values and Ethics to be adopted by the authority under section 375A.
- (2) If—
- (a) the conference unanimously recommend a syllabus for adoption by the authority under section 375A, and
 - (b) it appears to the authority that the recommended syllabus meets the condition in sub-paragraph (3),
- the authority may give effect to the recommendation by adopting the syllabus.
- (3) The condition is that the syllabus—

Statws This is the original version (as it was originally enacted).

- (a) reflects the fact that the religious traditions in Wales are mainly Christian, while taking account of the teaching and practices of the other principal religions represented in Wales, and
- (b) also reflects the fact that a range of non-religious philosophical convictions (within the meaning of section 375A(3)) are held in Wales.

(4) If—

- (a) the authority report to the Welsh Ministers that the conference are unable unanimously to recommend a syllabus for adoption under section 375A,
- (b) the authority report to the Welsh Ministers that the condition in sub-paragraph (3) prevents them from giving effect to the unanimous recommendation of the conference, or
- (c) it appears to the Welsh Ministers that the authority have failed to exercise their power under sub-paragraph (2) to give effect to the unanimous recommendation of the conference,

the Welsh Ministers must proceed in accordance with paragraph 12.”

(10) Ym mharagraff 10—

- (a) yn is-baragraff (1), yn lle “This paragraph applies where a local authority” rhodder “Sub-paragraph (2) applies where a local authority in England”;
- (b) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Sub-paragraphs (2B) and (2C) apply where a local authority in Wales cause a conference to be convened for the purpose of reconsidering any agreed syllabus under paragraph 2 or 3.

(2B) If—

- (a) the conference—
 - (i) unanimously recommend that the existing syllabus should continue to be the agreed syllabus, or
 - (ii) unanimously recommend a new syllabus to be adopted in substitution for the existing syllabus, and
- (b) it appears to the authority that the condition in sub-paragraph (2C) has been met in relation to the syllabus, the authority may give effect to the recommendation.

(2C) The condition in this sub-paragraph is met in relation to a syllabus if the syllabus—

- (a) reflects the fact that the religious traditions in Wales are in the main Christian while taking account of the teaching and practices of the other principal religions represented in Wales, and
- (b) also reflects the fact that a range of non-religious philosophical convictions (within the meaning of section 375A(3)) are held in Wales.

(2D) Sub-paragraph (3) applies in relation to local authorities in England and local authorities in Wales.”;

- (c) yn is-baragraff (3), ym mharagraff (a), ar ôl “Secretary of State” mewnosoder “(in the case of an authority in England) or to the Welsh Ministers (in the case of an authority in Wales)”;
- (d) yn is-baragraff (3), ym mharagraff (b), ar ôl “(2)(b)” mewnosoder “or, as the case may be, (2B)(b).”;
- (e) yn is-baragraff (3), ym mharagraff (c)—
 - (i) ar ôl “Secretary of State” mewnosoder “or, as the case may be, the Welsh Ministers.”;
 - (ii) ar ôl “sub-paragraph (2)” mewnosoder “or, as the case may be, sub-paragraph (2B).”;
 - (iii) yn y geiriau ar ôl paragraff (c), ar ôl “Secretary of State” mewnosoder “or, as the case may be, the Welsh Ministers.”.

(11) Ym mharagraff 12, ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Where required by paragraph 9A or 10 to proceed in accordance with this paragraph, the Welsh Ministers shall appoint a body of persons appearing to the Welsh Ministers to possess relevant experience to prepare a syllabus of Religion, Values and Ethics.”

(12) Ym mharagraff 13—

- (a) yn is-baragraff (1), ym mharagraff (b), ar ôl “religious education” mewnosoder “or, as the case may be, a syllabus of Religion, Values and Ethics”;
- (b) yn is-baragraff (1), ym mharagraff (c), yn lle “to the Secretary of State” rhodder “—
 - (i) in the case of a body appointed by the Secretary of State, to the Secretary of State;
 - (ii) in the case of a body appointed by the Welsh Ministers, to the Welsh Ministers”.

(13) Ym mharagraff 14—

- (a) daw’r ddarpariaeth bresennol yn is-baragraff (1);
- (b) yn yr is-baragraff hwnnw, yn lle “the appointed body” rhodder “a body appointed under paragraph 12 by the Secretary of State”;
- (c) ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—

“(2) The syllabus prepared by a body appointed by the Welsh Ministers under paragraph 12 shall be deemed to be the syllabus adopted by the authority under section 375A—

- (a) as from such date as the Welsh Ministers may direct, and
- (b) until a new syllabus is adopted by that authority under that section.”

(14) Ar ôl paragraff 14 mewnosoder—

“*Guidance*

- 14A (1) In exercising functions under this Schedule, each of the persons specified in sub-paragraph (2) must have regard to any guidance given by the Welsh Ministers.
- (2) The persons are—

Statws This is the original version (as it was originally enacted).

- (a) a local authority in Wales;
- (b) a conference convened by a local authority in Wales under this Schedule;
- (c) a body of persons appointed by the Welsh Ministers under paragraph 12.”

Deddf Addysg 1997 (p. 44)

- 27 Mae Deddf Addysg 1997 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 28 Yn adran 56 (dehongli), yn is-adran (1), yn y diffiniad o “regulations”, ar y diwedd mewnosoder “, except where otherwise stated or where the function of making regulations under this Act has been transferred to the Welsh Ministers in relation to Wales”.

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31)

- 29 Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 30 Yn adran 58 (penodi a diswyddo athrawon penodol mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol), yn is-adran (1), yn y testun ar ôl paragraff (b), ar ôl “in accordance with” mewnosoder “section 68A and”.
- 31 Yn adran 60 (staff mewn ysgol sefydledig neu wirfoddol sydd â chymeriad crefyddol), yn is-adran (5), ym mharagraff (a), yn is-baragraff (i), ar ôl “under” mewnosoder “section 68A or”.
- 32 Yn Rhan 2, ym mhennawd Pennod 6 (addysg grefyddol ac addoli), ar ôl “religious education” mewnosoder “etc”.
- 33 O flaen adran 69 (a’r pennawd italig o’i blaen) mewnosoder—

“Designation of schools: Wales

68A Designation of schools with a religious character: Wales

- (1) For the purposes of this Part and the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 a foundation or voluntary school in Wales has a religious character if it is designated as a school having such a character by an order made by the Welsh Ministers.
- (2) An order under subsection (1) must state the religion or religious denomination in accordance with whose tenets provision in the school’s curriculum in respect of Religion, Values and Ethics is, or may be, required to be designed and implemented under the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 (or, as the case may be, each such religion or religious denomination).
- (3) The procedure to be followed in connection with—
 - (a) the designation of a school in an order under subsection (1), and
 - (b) the statement required by subsection (2),may be specified in regulations made by the Welsh Ministers.

- (4) Any order made under section 69(3) in respect of a foundation or voluntary school in Wales that has effect immediately before the coming into force of this section continues to have effect until revoked.
- (5) Where an order continues to have effect under subsection (4)—
- (a) the order is to be treated for all purposes as being an order made under this section,
 - (b) the school designated by the order is to be treated for all purposes as being designated under this section, and
 - (c) any references in the order to religious education are to be treated as being references to Religion, Values and Ethics.”
- 34 Yn y pennawd italig o flaen adran 69, ar y diwedd mewnosoder “: *England*”.
- 35 (1) Mae adran 69 (dyletswydd i sicrhau darpariaeth ddyladwy addysg grefyddol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn y pennawd, ar ôl “religious education” mewnosoder “: *England*”.
- (3) Yn is-adran (1)—
- (a) yn y geiriau o flaen paragraff (a), ar ôl “voluntary school” mewnosoder “in *England*”;
 - (b) yn y geiriau ar ôl paragraff (b), hepgorer “or 101(1)(a)”.
- (4) Yn is-adran (2)—
- (a) yn y geiriau o flaen paragraff (a), hepgorer “or 101(1)(a)”;
 - (b) ym mharagraff (a), ar ôl “voluntary schools” mewnosoder “in *England*”;
 - (c) ym mharagraff (b), ar ôl “voluntary controlled schools” mewnosoder “in *England*”;
 - (d) ym mharagraff (c), ar ôl “voluntary aided schools” mewnosoder “in *England*”.
- (5) Yn is-adran (3), ar ôl “voluntary school” mewnosoder “in *England*”.
- 36 (1) Mae adran 71 (eithriadau a threfniadau arbennig: darpariaeth ar gyfer ysgolion arbennig) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (1), yn y geiriau o flaen paragraff (a), ar ôl “voluntary school” mewnosoder “in *England*”.
- (3) Yn is-adran (2), ym mharagraff (a), hepgorer “or 101(1)(a)”.
- (4) Yn is-adran (7), ar ôl “foundation special school” mewnosoder “in *England*”.
- (5) Ar ôl is-adran (7) mewnosoder—
- “(7A) Regulations made by the Welsh Ministers shall make provision for ensuring that, so far as practicable, every pupil attending a community or foundation special school in Wales attends religious worship unless withdrawn from attendance at such worship—
- (a) in the case of a sixth-form pupil, in accordance with the pupil’s own wishes, and
 - (b) in any other case, in accordance with the wishes of the pupil’s parent.”

- 37 (1) Mae adran 124B (dynodi bod i ysgolion annibynnol gymeriad crefyddol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) O flaen is-adran (1) mewnosoder—
- “(A1) Subsections (1) and (3) of section 68A (which relate to the designation of foundation or voluntary schools in Wales as having a religious character) apply in relation to an independent school in Wales as they apply in relation to a foundation or voluntary school in Wales, but as if—
- (a) in subsection (1) of that section, the references to Part 2 and the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 were a reference to this Part, and
- (b) in subsection (3) of that section, the reference to subsection (2) of that section were a reference to subsection (2) of this section.”
- (3) Yn is-adran (1)—
- (a) ar ôl “voluntary schools” mewnosoder “in England”;
- (b) ar ôl “independent school” mewnosoder “in England”.
- (4) Yn is-adran (2), ar ôl “made under” mewnosoder “section 68A by virtue of subsection (A1) or under”.
- 38 Yn adran 138A (gweithdrefn ar gyfer rheoliadau)—
- (a) yn y pennawd, ar ôl “under” mewnosoder “section 71(7A) or”;
- (b) yn is-adran (1), ar ôl “under” mewnosoder “section 71(7A) or”.
- 39 (1) Mae adran 142 (dehongli cyffredinol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (1)—
- (a) yn y diffiniad o “Church in Wales school”—
- (i) yn lle “Secretary of State” rhodder “Welsh Ministers”;
- (ii) yn lle “section 69(4)” rhodder “section 68A”;
- (b) yn y diffiniad o “regulations”, yn lle “(except in sections 89 to 90)” rhodder “(except where otherwise stated or where the function of making the regulations has been transferred to the Welsh Ministers in relation to Wales)”;
- (c) yn y diffiniad o “Roman Catholic Church school”, ar ôl “section” mewnosoder “68A or”.
- (3) Yn is-adran (2), yn lle “Secretary of State” rhodder “Welsh Ministers”.
- (4) Yn is-adran (3), ar ôl “under” mewnosoder “section 68A,”.
- 40 (1) Mae adran 143 (mynegai) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn y cofnod sy’n dechrau “school which has a religious character”, ar ôl “school”, yn y lle cyntaf y mae’n digwydd, mewnosoder “in England”.
- (3) Ar ôl y cofnod hwnnw, mewnosoder—

“school in Wales which has a religious character

(in Part 2 in relation to a foundation or section 68A(1) voluntary school)

(in Part 5A in relation to an independent sections 68A(1) and 124B(A1)”.
 school)

- 41 Yn Atodlen 3, yn Rhan 2 (cyllido ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir), ym mharagraff 5(12), yn y diffiniad o “appropriate schools”, ym mharagraff (a), ar ôl “section” mewnosoder “68A or”.
- 42 (1) Mae Atodlen 19 (darpariaeth ofynnol ar gyfer addysg grefyddol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ym mhennawd yr Atodlen, ar ôl “RELIGIOUS EDUCATION” mewnosoder “: ENGLAND”.
- (3) Ym mharagraff 1 (rhagarweiniol), yn is-baragraff (1), hepgorer “or 101(1)(a)”.
- (4) Ym mharagraff 2 (ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol), yn is-baragraff (1)—
- (a) ym mharagraff (a), ar ôl “community school” mewnosoder “in England”;
- (b) ym mharagraff (b), ar ôl “voluntary school” mewnosoder “in England”.
- (5) Ym mharagraff 3 (ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol), yn is-baragraff (1), ar ôl “voluntary controlled school” mewnosoder “in England”.
- (6) Ym mharagraff 4 (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol), yn is-baragraff (1), ar ôl “voluntary aided school” mewnosoder “in England”.
- 43 Yn Atodlen 20 (addoli ar y cyd), ym mharagraff 5, yn y geiriau ar ôl paragraff (b), ar ôl “section” mewnosoder “68A or”.

Deddf Addysg 2002 (p. 32)

- 44 Mae Deddf Addysg 2002 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 45 Hefgorer Rhan 7 (y cwricwlwm yng Nghymru).
- 46 (1) Mae adran 210 (gorchmynion a rheoliadau) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (6A)—
- (a) hepgorer “or Part 7”;
- (b) hepgorer “unless the instrument contains an order mentioned in subsection (6AB)”.
- (3) Hefgorer is-adran (6AB).

Deddf Trwyddedu 2003 (p. 17)

- 47 Mae Deddf Trwyddedu 2003 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 48 Yn Atodlen 1 (darparu adloniant rheoleiddiedig), yn Rhan 3, ym mharagraff 21, yn is-baragraff (1), ym mharagraff (d), ar ôl “section 19” mewnosoder “or 19A”.

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (p. 38)

- 49 Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

- 50 Yn adran 24 (dehongli), yn y diffiniad o “relevant school”, ym mharagraff (d), ar ôl “section 19(2)” mewnosoder “or 19A(2)”.

Deddf Addysg 2005 (p. 18)

- 51 (1) Mae adran 50 o Ddeddf Addysg 2005 (arolygu addysg grefyddol: Cymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn y pennawd, yn lle “religious” rhodder “denominational”.
- (3) Yn is-adran (1), yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle “69(3)” rhodder “68A”.
- (4) Yn is-adran (2), ym mharagraff (a), yn lle “69(4)” rhodder “68A”.

Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (p. 41)

- 52 Mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 53 Yn Atodlen 1 (darpariaeth bellach ynghylch yr Ysgrifennydd Gwladol a gwasanaethau o dan y Ddeddf), ym mharagraff 2, yn is-baragraff (1), ym mharagraff (b), ar ôl “19” mewnosoder “or 19A”.

Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42)

- 54 Mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 55 Yn Atodlen 1 (darpariaeth bellach ynghylch Gweinidogion Cymru a gwasanaethau o dan y Ddeddf), ym mharagraff 2, yn is-baragraff (1), ym mharagraff (b), ar ôl “19” mewnosoder “or 19A”.

Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1)

- 56 Mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.
- 57 Hepgorer Rhan 1 (cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4).
- 58 Yn adran 46 (rheoliadau sy’n gysylltiedig â gweithredu’r cwricwlwm lleol), yn is-adran (2), yn lle “Rannau 1 a 2” rhodder “Ran 2”.
- 59 Yn yr Atodlen (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol)—
- (a) hepgorer y pennawd italig o flaen paragraff 11;
 - (b) hepgorer paragraffau 11 i 20.

Mesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5)

- 60 Mae Mesur Addysg (Cymru) 2009 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.
- 61 Hepgorer adran 21 (y cyfnod sylfaen).

Deddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15)

- 62 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 63 Yn Atodlen 11 (ysgolion: eithriadau), yn Rhan 2 (gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred), ym mharagraff 5, yn is-baragraff (a), ar ôl “section” mewnosoder “68A or”.

- 64 Yn Atodlen 17 (disgyblion anabl: gorfodi), ym mharagraff 6A (fel y mae'n cael effaith cyn i baragraff 19(5)(g) o Atodlen 1 i [Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(dccc 2\)](#) roi paragraff newydd yn ei le), yn is-baragraff (7), yn y diffiniad o "pupil referral unit", ar ôl "section 19" mewnosoder "or 19A".
- 65 Yn Atodlen 19 (awdurdodau cyhoeddus), yn Rhan 1, yn y rhestr o "Other educational bodies", yn y cofnod ar gyfer awdurdod lleol, ar ôl "section 19" mewnosoder "or 19A".

Mesur Addysg (Cymru) 2011 (mccc 7)

- 66 Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.
- 67 Yn adran 9 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol), yn is-adran (3), hepgorer paragraff (b).

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1)

- 68 Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 69 Yn adran 98 (dehongli'n gyffredinol a mynegai o ymadroddion sydd wedi eu diffinio) —
- (a) yn is-adran (3), yn y diffiniad o "corff crefyddol priodol", ym mharagraff (b), yn lle "69(3)" rhodder "68A";
 - (b) yn is-adran (5), yn lle "69(3)" rhodder "68A".
- 70 Yn Atodlen 5 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol), ym mharagraff 21, hepgorer is-baragraffau (4) i (6).

Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 (dccc 1)

- 71 Mae Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 72 Yn adran 6 (diddymu dyletswyddau sefydliadau addysg bellach i gydymffurfio â chyfarwyddiadau), hepgorer is-adrannau (3) a (4).

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2)

- 73 Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 74 Yn adran 14 (dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau: awdurdodau lleol), ar ôl is-adran (9) mewnosoder—
- “(9A) Os yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir mewn cynllun datblygu unigol yn cynnwys darpariaeth o'r math a grybwyllir yn adran 41(1) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ni chaiff awdurdod lleol roi cyfarwyddiadau i gorff llywodraethu ysgol o dan is-adran (2)(b) neu (4) mewn perthynas â'r cynllun.”
- 75 Yn Atodlen 1 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymadau), ym mharagraff 4, hepgorer is-baragraff (7).